

Uwch Ymarferwyr Ffisiotherapi mewn Gofal Sylfaenol

Cathy Wynne, Arweinydd yr Uwch Ymarferwyr Ffisiotherapi, Robert Caine, Uwch Ymarferydd Ffisiotherapi, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Y Cyd-destun a'r Problem

Mae'r gweithlu Gofal Sylfaenol yng Ngogledd Cymru o dan bwysau sylweddol oherwydd prinder Ymarferwyr Cyffredinol. Mae angen newid arloesol i ddarparu gweithlu gofal sylfaenol cynaliadwy yn y tymor byr a'r hirdymor. Egwyddor sylfaenol y model newydd hwn o ofal sy'n canolbwyntio ar y claf yw darparu gwasanaeth integredig rhagorol, yn agos i gartref y claf heb oedi diangen.

Mae'r gwasanaeth hwn yn anelu at symleiddio'r llwybr cyhyrsgerbydol drwy wneud Uwch Ymarferwyr Ffisiotherapi (UYFF) yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyflyrau cyhyrsgerbydol mewn gofal sylfaenol gan ryddhau meddygon teulu o'r llwyth achos hwn.

Strategaeth ar gyfer Newid

Diben y strategaeth hon yw cynorthwyo i orosi'r anawsterau presennol a'r rheini yn y dyfodol o ran recriwtio meddygon teulu.

Mae'r fenter newydd a chyffrous hon yn ymchwilio i ba mor effeithiol ydyw i Uwch Ymarferwyr asesu cleifion gyda phroblemau cyhyrsgerbydol yn glinigol yn hytrach na chael eu hasesu gan feddyg teulu.

Mae'r cynllun hwn yn cefnogi cynaliadwydd gofal sylfaenol a'r newid i fodel gofal amlbroffesiwn "darbodus", sy'n rhyddhau amser meddygon teulu gan eu galluogi i reoli achosion meddygol a chydafiachedd mwy cymhleth.

Mae'r gwasanaeth hwn yn bodloni pedwar egwyddor gofal iechyd darbodus a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru wrth geisio bod yn rhan o ateb hirdymor ar gyfer darparu gwasanaeth gofal iechyd cynaliadwy ledled Gogledd Cymru.

Mae uwchsgilio'r gweithlu ffisiotherapi yn hanfodol i redeg y gwasanaeth hwn yn llwyddiannus mewn gofal sylfaenol. Mae'r gwasanaeth ffisiotherapi wedi cefnogi'r gweithlu o uwch ymarferwyr yn llawn i ddatblygu cwrpas ei sgiliau gan ei alluogi i reoli'r llwyth achos cyhyrsgerbydol mewn gofal sylfaenol mewn modd effeithiol, diogel, cymwys ac ymreolus.

Mesur Gwelliannau

Nod sylfaenol

I fod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer 70% o gleifion cyhyrsgerbydol mewn gofal sylfaenol

I sicrhau boddhad cleifion, a'u bod yn derbyn a deall y model gofal newydd hwn


Nodau eilaidd

Uwchsgilio'r gweithlu ffisiotherapi

Dangos gostyngiad mewn atgyfeiriadau i wasanaethau cyhyrsgerbydol gofal eilaidd

Defnyddiwyd cyfuniad o fesurau meintiol ac ansoddol i arddangos effaith y gwelliant; gweithgaredd uwch ymarferwyr ffisiotherapi, atgyfeiriadau meddygon teulu, arbedion cost ac adborth cleifion.


Effeithiau'r Newidiadau



Gweithgaredd 2015 – 7/7/17	% Pwynt Cyswllt Cyntaf (PCC)	Adolygiadau	Arbedion Cost - PCC
23249 pts seen	38%	1367 (8%)	£35,797.00

Atgyfeiriadau o feddygfeydd Gofal Sylfaenol i wasanaethau cyhyrsgerbydol gofal eilaidd gyda gwasanaeth Uwch Ymarferwyr Ffisiotherapi.

2014/15 (cyn UYFF)	2015/16 UYFF	2016/17 UYFF	Gostyngia d mewn atgyfeiriad au ers Ebrill 2015	Arbedion costau (ar sail apwyntiad ymarferydd nyrsio £130)
16,351	15,313	13,483	2868	£372840



Heriau

- Yr angen i 'uwchsgilio' ffisiotherapyddion i ateb y galw
- Yr angen parhaus i ôl-lenwi swyddi ffisiotherapi Band 5/6 mewn gofal eilaidd wrth i staff symud i ofal sylfaenol
- Cipio data (Systemau electronig meddygon teulu)